Teitl y Swydd: Hyfforddwr Gweithgarwch Tymhorol

AMDANOM NI

Legacy Leisure ym Mhlas Menai

Mae Legacy Leisure, sefydliad elusennol nid-er-elw a sefydlwyd i gynnal gwaddol cenedlaethol y Gemau Olympaidd, wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau hamdden a diwylliannol amrywiol o ansawdd uchel sy'n bywiogi cymunedau. Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein henw rhagorol o ran iechyd a diogelwch a'n hymrwymiad dwfn i ddatblygiad a lles staff.

Mae'r rôl hon wedi'i lleoli ym Mhlas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru. Ers 40 mlynedd, mae Plas Menai wedi cynnal enw elitaidd am ddarparu hyfforddiant dŵr a thir o safon byd. Fel Hyfforddwr Gweithgarwch Tymhorol, byddwch yn ymuno â thîm sydd wedi siapio gyrfaoedd hyfforddwyr blaenllaw yn y diwydiant ledled y DU a thu hwnt. Drwy ymuno â ni yn 2027, byddwch yn dod yn rhan o genhadaeth i ysbrydoli gweithgarwch corfforol wrth hyfforddi yn un o brif sefydliadau awyr agored y DU.

PWRPAS Y SWYDD

Mae Plas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, yn darparu rhaglenni dŵr a thir elitaidd sydd wedi'u cynllunio i rymuso unigolion o bob gallu i gofleidio cyfleoedd dysgu newydd. Yn cael ei weithredu gan Legacy Leisure, rydyn ni'n darparu amgylchedd o safon byd lle mae gwasanaeth o ansawdd uchel a chyfarwyddyd proffesiynol wrth galon pob rhyngweithio â gwesteion.

Rydyn ni'n chwilio am Hyfforddwr sydd â'i Ffocws ar Dwf sy'n ymroddedig i feistroli arweinyddiaeth awyr agored. Mae'r rôl hon yn fan cychwyn delfrydol ar gyfer gweithiwr proffesiynol sydd ag un cymhwyster CRhC o leiaf ac sy'n awyddus i wneud cynnydd tuag at statws Uwch Hyfforddwr. Byddwch yn cael golwg cyfranogol, 360 gradd ar y diwydiant, gan ehangu eich arbenigedd ar draws disgyblaethau amrywiol gan gynnwys chwaraeon padlo, hwylio a dyfrol mewn Canolfan Genedlaethol brysur, aml-chwaraeon.

DISGRIFIAD SWYDD

Fel Hyfforddwr Tymhorol ym Mhlas Menai, byddwch yn ymgorffori meddylfryd proffesiynol sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng arweinyddiaeth addysgu lefel elitaidd ac ymrwymiad llwyr i ragoriaeth weithredol. Diffinnir eich rôl gan Ddarparu Diogelwch Yn Gyntaf, lle byddwch chi'n arwain ac yn cynorthwyo gyda gweithgareddau dŵr a thir o ansawdd uchel wrth lynu'n llym at y Llawlyfr Diogelwch a Gweithredol a safonau CRhC. Y tu hwnt i'r dŵr, byddwch yn gwasanaethu fel Llysgennad Proffesiynol i Blas Menai a Legacy Leisure, gan ymgysylltu â'r busnes hamdden drwy oruchwyliaeth campfa a diogelwch dyfrol fel achubwr bywyd os ydych chi'n gymwys.

Yn driw i Feddylfryd Plas Menai, byddwch yn dangos hyblygrwydd gweithredol drwy reoli cylch bywyd llawn yr offer - o baratoi a glanhau yn drwyadl i gynorthwyo gydag atgyweiriadau

technegol, a sicrhau bod ein cyfleusterau o safon byd ar eu gorau b
chadw cyffredinol. Mae eich dull o weithredu gyda'i Ffocws ar Dwf yn ca
cyfrifoldebau arweinyddiaeth haenog, gan weithredu fel Cyfarwyddwr Cwrs ar gyfer grwpiau llai, a'ch ymgysylltu rhagweithiol â hyfforddiant Cymraeg i fodloni safonau gwasanaeth dwyieithog.

Yn olaf, byddwch yn cynnal Integriti Gweithredol y Ganolfan drwy gymryd rhan yn y cylchdro dyletswydd ar alwad, gan ddarparu diogelwch safle hanfodol, croesawu gwesteion, a darpariaeth wrth gefn frys gan ymatal yn llym rhag yfed unrhyw alcohol er mwyn bod yn barod os daw galwad.

Dyma'r disgwyliadau gan gyflogeion, er nad ydynt yn hollgynhwysfawr:

1. Rhagoriaeth Hyfforddi a Chydymffurfiaeth Diogelwch

- Darpariaeth Diogelwch yn Gyntaf: Rydych chi'n gyfrifol am arwain a chynorthwyo gyda chyrsiau gweithgarwch dŵr a thir o ansawdd uchel, ar y safle ac oddi ar y safle, gan sicrhau bod y Llawlyfr Diogelwch a Gweithredol a safonau Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) yn cael eu dilyn yn llym bob amser.
- Diogelwch Dyfrol: Byddwch yn cynnal rôl hanfodol fel achubwr bywyd ac yn cefnogi rhaglen nofio achrededig Nofio Cymru, gan sicrhau diogelwch pob cyfranogwr yn yr amgylchedd dyfrol.
- Rheoli Risg: Rhaid i chi reoli a defnyddio'r holl offer a'r Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) sy'n cael eu neilltuo'n rhagweithiol, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cael eu defnyddio yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch.
- Cylch Bywyd Offer: Byddwch yn sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael ei baratoi'n fanwl cyn gweithgareddau a'i fod yn cael ei lanhau'n drylwyr, ei storio a'i ddiogelu'n briodol yn syth ar ôl ei ddefnyddio.
- Cefnogaeth Dechnegol: Byddwch yn cynorthwyo Swyddogion Offer yn weithredol gydag archwiliadau diogelwch arferol a mân atgyweiriadau, gan ddatblygu'r sgiliau technegol sy'n ofynnol i gynnal fflyd o offer awyr agored o safon byd.
- Parodrwydd Cyfleuster: Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod y tiroedd a'r cyfleusterau ar eu gorau bob amser ac yn barod ar gyfer gweithredu, sy'n cynnwys glanhau cyffredinol, cynnal a chadw a gwaith yn y ganolfan yn ôl cais y rheolwyr.
- Arweinyddiaeth Haenog: Byddwch yn darparu cefnogaeth hanfodol i'r Rheolwr Gweithgarwch ar Ddyletswydd a Chyfarwyddwyr Cwrs dynodedig. Yn dibynnu ar eich profiad a'ch cymwysterau, efallai y byddwch hefyd yn Gyfarwyddwr Cwrs.

- Arbenigedd Ffitrwydd a Hamdden: Byddwch yn ymgysylltu ag c drwy gynorthwyo gyda goruchwylio'r gampfa a pharatoi dosb sicrhau bod yr amgylcheddau hyn yn bodloni safonau proffesiynol uchel.

- Llysgenhadaeth Broffesiynol: Mae'n ofynnol i chi gynnal dull proffesiynol, cwrtais a difyr o weithredu gyda phob cwsmer a chleient, gan weithredu fel cynrychiolydd Plas Menai a Legacy Leisure.

- Cyfrifoldeb Ar Alwad: Byddwch yn cymryd rhan yn rota'r Swyddogion Dyletswydd Ar Alwad (hyd at 8 noson y mis), gan aros ar y safle i gynnig darpariaeth wrth gefn frys a chefnogi'r ganolfan y tu allan i oriau gwaith.

- Diogelwch y Safle a Chroesawu Gwesteion: Yn ystod dyletswyddau nos, byddwch yn rheoli diogelwch y safle ac yn hwyluso dyfodiad / cofrestru hwyr gwesteion, gan sicrhau croeso proffesiynol y tu allan i oriau gweithredu safonol.

- Integriti Gweithredol: Yn ystod pob cyfnod ar alwad, rhaid i chi fod mewn cyflwr o barodrwydd gweithredol ac ymatal yn llwyr rhag yfed alcohol.

- Safonau'r Gymraeg: Rhaid i chi gymryd rhan weithredol mewn hyfforddiant Cymraeg, yn unol â chyfarwyddyd y rheolwyr, er mwyn cefnogi ymrwymiad y Ganolfan i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac i gydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru.

6. Arweinyddiaeth Diogelwch a Dyletswydd Statudol

Ym Mhlas Menai, mae'r meddylfryd ar gyfer diogelwch a chydymffurfiaeth wedi'i wreiddio mewn Cyfrifoldeb Rhagweithiol ac ymrwymiad i safonau gweithredol o safon byd. Byddwch yn ymgorffori hyn drwy gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill, gan sicrhau bod pob gweithred yn cyd-fynd â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Mae eich rôl yn cynnwys cydweithio'n agos â'r Prif Hyfforddwr i sicrhau bod pob gweithgaredd - o'r glannau i'r cyrsiau ar y tir - yn cadw'n llym at ofynion statudol, codau ymarfer CRhC, ac asesiadau risg mewnol, gan gynnwys COSHH a HACCP lle mae hynny'n berthnasol.

Mewn argyfwng, disgwylir i chi ymateb gyda Dawn Broffesiynol, gan gadw cofnodion trylwyr o bob digwyddiad yn unol â pholisi'r Cwmni. Y tu hwnt i ddiogelwch corfforol, byddwch yn hyrwyddo Ymddygiad Cynhwysol, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cyflawni ein dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Byddwch yn diogelu enw da'r Ganolfan drwy gynnal safonau uchel mewn Diogelwch Gwybodaeth a Diogelu, gan gynnal Rhagoriaeth Hylendid ar draws pob amgylchedd mewnol ac allanol.

Fel cynrychiolydd y brand, byddwch yn gwisgo'r wisg ddynodedig a'r P
sicrhau delwedd broffesiynol yn ystod pob rhyngweithio â chwsmeria
dangos Hyblygrwydd Gweithredol drwy weithio'n hyblyg ar draws oriau afreolaidd ac anghymdeithasol weithiau - gan gynnwys penwythnosau a gwyliau cyhoeddus - gan gyflawni dyletswyddau hyblyg yn ôl yr angen i ddiwallu gofynion tymhorol brig ein Canolfan Genedlaethol.

Dyma'r disgwyliadau gan gyflogeion, er nad ydynt yn hollgynhwysfawr:

- Cydymffurfiaeth Ragweithiol: Rhaid i chi gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch eraill, gan sicrhau bod pob gweithred neu hepgoriad yn cyd-fynd â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Rheoli Risg Weithredol: Byddwch yn cydweithio â'r Prif Hyfforddwr i sicrhau bod pob gweithgaredd ar lan y dŵr ac ar y tir yn cydymffurfio'n llym â gofynion statudol, codau ymarfer CRhC, ac asesiadau risg mewnol (gan gynnwys COSHH / HACCP lle mae hynny'n berthnasol).
- Ymateb Brys: Mae'n ofynnol i chi ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd brys a chadw cofnodion trylwyr o bob digwyddiad a damwain yn unol â pholisi'r Cwmni.
- Ymddygiad Cynhwysol: Rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd deg a pharchus bob amser, gan werthfawrogi amrywiaeth a chyfrannu'n weithredol at ein dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- Diogelu a Diogelwch: Byddwch yn cyflawni pob cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Risg i gynnal enw da'r Ganolfan fel amgylchedd o safon byd.
- Safonau Brand: Mae'n ofynnol i chi wisgo'r wisg ddynodedig a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, gan sicrhau delwedd broffesiynol wrth ddilyn mentrau gwasanaethau cwsmeriaid.
- Rhagoriaeth Hylendid: Byddwch yn cynnal amgylchedd taclus, diogel a hylan yn rhagweithiol ar draws holl ardaloedd mewnol ac allanol y Ganolfan i gefnogi parodrwydd gweithredol.
- Amserlennu Sy'n Cael Ei Arwain Gan Wasanaethau: Oherwydd natur y rhaglen weithgarwch, byddwch yn gweithio oriau afreolaidd ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau cyhoeddus, o dan fframwaith oriau blynyddol o bosibl.
- Dyletswyddau Hyblyg: Rhaid i chi weithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen sy'n berthnasol i'ch swydd a'ch graddfa er mwyn sicrhau bod y Ganolfan yn bodloni ei gofynion tymhorol brig.

08. CYMWYSTERAU, GWYBODAETH A SGILIAU

- 5 TGAU (neu gymwysterau cydnabyddedig cyfatebol)
- Rhaid bod â dau neu fwy o gymwysterau hyfforddi / cyfarwyddo Corff Rheoli Cenedlaethol mewn Chwaraeon Antur Awyr Agored (er enghraifft) -
- Hyfforddwr Dingi'r RYA
- Hyfforddwr Gwyntsyrffio'r RYA
- Hyfforddwr Cychod Pŵer yr RYA
- Hyfforddwr neu Arweinydd Chwaraeon Padlo
- Arweinydd Dŵr Mewndirol / Agored SUP
- Hyfforddwr Dringo Creigiau
- Arweinydd Tir Isel
- Arweinydd Beicio Mynydd

Dymunol

- Tystysgrif Cymorth Cyntaf
- Bydd y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried yn ffafriol
- Trwydded Yrru Lân
- Uwch Hyfforddwr Hwylio neu Wyntsyrffio
- Arweinydd Mynydd
- Profiad Ceunentydd
- Dyfarniad hyfforddi Caiacio Môr

09. PROFIAD

- O leiaf un tymor o brofiad yn gweithio yn y diwydiant awyr agored fel hyfforddwr.

10. PERSONOL (Meddylfryd Plas Menai)

Mae'r rhain ymhlith y nodweddion personol a geisir gan yr ymgeisydd:

- Presenoldeb: Rydych chi'n allblyg, yn hawdd siarad â chi, ac yn edrych yn dda yn gyson o ran eich ymddangosiad, gan wasanaethu fel llysgennad o safon byd i'r Ganolfan.

- Meithrin Perthnasoedd: Mae gennych chi'r gallu naturiol i feithrin pharchus gyda phlant, oedolion, cydweithwyr ac athrawon sy'n yn

- Parch at Gydweithwyr: Rydych chi'n ymddwyn gyda'r integriti gofynnol i gael eich derbyn a'ch parchu ar unwaith gan gwsmeriaid a'r tîm proffesiynol ehangach.

- Dysgu Parhaus: Mae gennych chi ddyhead cadarnhaol i ddatblygu sgiliau lefel elitaidd ac rydych chi'n frwdfrydig am ennill cymwysterau newydd ar draws disgyblaethau anturus a hamdden.

- Agwedd Iach at Dwf: Rydych chi'n gofyn am, ac yn derbyn adborth, yn gadarnhaol, gan weld pob rhyngweithio fel cyfle i ddatblygu eich hun.

- Ymroddiad Academaidd: Rydych chi wedi ymrwymo i gwblhau DPP.

- Synergedd Tîm: Rydych chi'n aelod ymroddedig o dîm ac yn deall bod ein llwyddiant ni'n dibynnu ar ragoriaeth gydweithredol.

- Annibyniaeth: Rydych chi'r un mor gyfforddus yn gweithio'n annibynnol, gyda blaengaredd i ddatrys problemau cyn iddyn nhw waethygu.

- Parod i Addasu: Rydych chi'n cofleidio natur "360 gradd" y rôl, gan ddangos angerdd cyfartal dros arweinyddiaeth hyfforddi a'r stiwardiaeth hanfodol dros y cyfleuster sy'n ofynnol i gadw'r Ganolfan yn gweithredu.

- Ffitrwydd Hyfforddi: Rydych chi'n cynnal y lefelau ffitrwydd uchel sy'n ofynnol i arwain sesiynau awyr agored egnïol bob dydd, gan fodloni'r holl ofynion corfforol a bennir gan safonau diogelwch CRhC.

- Parodrwydd Gweithredol: Rydych chi'n gorfforol abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr ac i'w harwain ym mhob amodau tymhorol.

- Hyblygrwydd Gwasanaeth: Rydych chi'n deall bod Canolfan Genedlaethol yn gweithredu ar rythm unigryw ac yn fodlon gweithio oriau afreolaidd ac anghymdeithasol i ddiwallu anghenion ein gwesteion.

- Ysbryd Dwyieithog: Rydych chi'n frwdfrydig dros gefnogi ein hymrwymiad i safonau Llywodraeth Cymru drwy gymryd rhan weithredol mewn darparu gwasanaethau a hyfforddiant dwyieithog.

11. DBS

Mae eich rôl yn cynnwys Gweithgarwch a Reoleiddir o dan bolisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Legacy Leisure ac felly, mae eich cyflogaeth yn amodol ar wiriad boddhaol gan y DBS.

Mae'r penodiad hwn yn amodol ar dderbyn gwiriad Uwch boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

12. Y Cynnig - Beth gall Legacy Leisure ei gynnig i chi?

- Cyflog cystadleuol
- Lwfans gwyliau blynyddol hael
- Aelodaeth am ddim o'r gampfa i chi a pherson wedi'i enwi
- Buddion iechyd i gyflogeion
- Tâl ychwanegol fesul awr os oes angen eich galw allan.
- Porthol gostyngiad i gyflogeion - gostyngiadau ar archebion teithio, talebau'r stryd fawr, cardiau rhodd, tocynnau sinema, dyddiau allan, gweithgareddau hamdden a'ch gwariant o ddydd i ddydd
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Cynllun Pensiwn
- Tâl salwch cwmni
- Cynnydd gyrfa
- Hyfforddiant a datblygiad
- Pecyn llety a bwyd llawn ar y safle (Yn amodol ar argaeledd)

13. AMODAU CYFLOGAETH

Teitl	Hyfforddwr Gweithgarwch Tymhorol
Yn adrodd i	Prif Hyfforddwr
Cyflog	£27,276.00 - £28,958 (pro rata) yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad
Gwyliau Blynyddol	33 diwrnod o wyliau blynyddol gyda thâl, a gwyliau banc, y flwyddyn (pro rata)
Pensiwn	Cofrestru Awtomatig gyda NEST ar ôl 3 mis o wasanaeth
Cyfnod Rhybudd	1 Mis

DS - Swydd dymhorol am gyfnod penodol ydi hon.

Dyddiad Cau	12:00 – hanner dydd ar ddydd Iau, 19eg Tachwedd 2027
Dyddiadau'r Cyfweliadau	Dydd Iau 27ain / Dydd Iau 26ain Tachwedd 2027